# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AR Y CYD (CYFARFOD CYMUNEDOL O BWYLLGORAU CRAFFU DECHRAU'N DDA, BYW'N DDA, LLE A ADNODDAU)

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 16 Rhagfyr, 2025.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, G.D.D. Carroll, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, C.P. Franks, E. Goodjohn, E.J. Goodjohn, S.M. Hanks, N.P. Hodges, M.J. Hooper, Dr. I.J. Johnson, S. Lloyd-Selby, J.M. Norman, H.M. Payne, J. Protheroe, C. Stallard, N.C. Thomas a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), M.C. Cowpe, N.B. Marshallsea, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd), G.M. Ball, R. Birch, G. Bruce, W.A. Hennessy, C. Iannucci-Williams a R. Sivagnanam.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2025 gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD VALE 2030: CHWARTER 2 2025/26 (CX) –

ARGYMHELLWYD – Yr adroddiad perfformiad Ch2 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Blwyddyn 1, fel y'u haliniwyd â nodau llesiant y Cyngor yn Vale 2030, gael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â gofynion perfformiad a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni nodau llesiant Cymru ac ystyried y cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Blwyddyn 1 yn Vale 2030 sy'n anelu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.